



At: Aelodau'r Pwyllgor Archwilio
Perfformiad

Dyddiad: 18 Hydref 2013

Rhif Union: 01824 712554

ebost: dcc_admin@denbighshire.gov.uk

Annwyl Gyngorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **PWYLLGOR ARCHWILIO PERFFORMIAD, DYDD IAU, 24 HYDREF 2013** am **9.30 am** yn **YSTAFELL BWLLGOR 1A, NEUADD Y SIR, RHUTHUN LL15 1YN.**

Yn gywir iawn

G Williams
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democraidaidd

AGENDA

RHAN 1 – ESTYNNIR GWAHODDIAD I'R WASG A'R CYHOEDD I DDOD I'R RHAN HON O'R CYFARFOD

1 YMDDIHEURIADAU

2 DATGAN CYSYLLTIAD

Dylai Aelodau ddatgan unrhyw gysylltiadau personol neu sy'n rhagfarnu yn unrhyw fusnes a nodwyd i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

3 MATERION BRYD FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Rhybudd o faterion, ym marn y Cadeirydd, y dylid eu hystyried yn y cyfarfod fel mater brys yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF (Tudalennau 5 - 12)

Derbyn cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Archwilio Perfformiad a gynhaliwyd ar 19 Medi 2013 (copi ynghlwm).

5 TCC YN SIR DDINBYCH (Tudalennau 13 - 22)

Ystyried adroddiad gan Bennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd / Rheolwr Gwarchod y Cyhoedd (copi ynghlwm) i ymgynghori gyda'r aelodau am amrywiaeth o opsiynau ar gyfer moderneiddio, uwchraddio a gwella TCC a Thim Cyswllt Tu Hwnt i Oriau Gwasanaeth y Cyngor.

9.35 a.m. – 10.05 a.m.

6 DIWEDDARIAD YNGLYN A THRWDDEDU TACSIS (Tudalennau 23 - 72)

Ystyried adroddiad gan Bennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd a'r Rheolwr Gwarchod y Cyhoedd (copi ynghlwm) ynglŷn ag effeithiolrwydd gweithdrefnau newydd trwyddedu yn dilyn gweithredu canfyddiadau adolygiad o faterion trwyddedu a gynhaliwyd gan Adran Archwilio Mewnol (gan bwysleisio'n benodol ar drwyddedau tacsî a chyfrifoldebau diogelu).

10.05 a.m. – 10.35 a.m.

~~~~~ **EGWYL 10.35 a.m. – 10.45 a.m.** ~~~~~

**7 DIWEDDARIAD AR Y STRATEGAETH YMYL PALMENTYDD ISEL**  
(Tudalennau 73 - 80)

Ystyried adroddiad gan Bennaeth y Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol (copi ynghlwm) ynglŷn â llunio'r strategaeth a threfn y cyngor ar gyfer darparu myyl palmentydd isel yn y sir a'u perfformiad i gyflawni'r amcanion hyn.

**10.45 a.m. – 11.15 a.m.**

**8 CEISIADAU CYNLLUNIO** (Tudalennau 81 - 92)

Ystyried adroddiad gan Bennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd / Rheolwr Rheoli Datblygu (copi ynghlwm) i ganfod tueddiadau sy'n ymddangos neu bwysau fydd yn effeithio ar allu'r cyngor i ddarparu eu blaenoriaethau corfforaethol o ran sicrhau mynediad at dai o ansawdd da a datblygu'r economi lleol.

**11.15 a.m. – 11.45 a.m.**

**9 RHAGLEN WAITH ARCHWILIO** (Tudalennau 93 - 110)

Ystyried adroddiad gan Gydlynnydd Archwilio (copi ynghlwm) yn gofyn am adolygiad o raglen waith i'r dyfodol y pwyllgor a diweddarau'r aelodau ynglŷn â materion perthnasol.

**11.45 a.m. – 12.05 p.m.**

## **10 ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR PWYLLGOR**

Derbyn yr wybodaeth ddiweddaraf gan gynrychiolwyr Pwyllgor sy'n aelodau o Fyrddau a Grwpiau'r Cyngor.

**12.05 p.m. – 12.10 p.m.**

### **RHAN 2 - MATERION CYFRINACHOL - EITEM 5, ATODIAD 1**

Argymhellir, yn unol ag Adran 100A (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, y dylid gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod trafod y materion canlynol oherwydd y tebygolrwydd y caiff gwybodaeth eithriedig, fel y diffinnir ym Mharagraff 12 Rhan 4 o Atodlen 12A y Ddeddf, ei datgelu.

### **AELODAETH**

#### **Y Cynghorwyr**

William Cowie  
Meirick Davies  
Richard Davies  
Colin Hughes  
Geraint Lloyd-Williams

Peter Owen  
Dewi Owens  
Arwel Roberts  
Gareth Sandilands  
David Simmons

### **COPIAU I'R:**

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth  
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd  
Cyngorau Tref a Chymuned

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

## PWYLLGOR ARCHWILIO PERFFORMIAD

Cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio Perfformiad a gynhaliwyd yn YSTAFELL BWLLGOR 1A, NEUADD Y SIR, RHUTHUN, Dydd Iau, 19 Medi 2013 am 9.30 am.

### YN BRESENNOL

Y Cyngorwyr William Cowie, Meirick Davies, Richard Davies, Colin Hughes, Geraint Lloyd-Williams, Dewi Owens, Arwel Roberts, Gareth Sandilands a/ac David Simmons (Cadeirydd)

### HEFYD YN BRESENNOL

Y Cyngorydd Hugh Irving, Aelod Arweiniol Cwsmeriaid a Chymunedau;  
Y Cyngorydd Barbara Smith, Aelod Arweiniol dros Foderneiddio a Pherfformiad;  
Cyngorydd Eryl Williams, Aelod Arweiniol Addysg

#### **Aelodau cyfetholedig:**

Debra Houghton, Nicola Lewis a'r Dr. Dawn Marjoram.

Cyfarwyddwr Corfforaethol Uchelgais Economaidd a Chymunedol (RM), Rheolwr y Tîm Gwella Corfforaethol (TW), Rheolwr Archwilio (BS), Pennaeth Cwsmeriaid a Chymorth Addysg (JW), Pennaeth Cynllunio Busnes a Pherfformiad (AS), Pennaeth Addysg (KE), Swyddog Cwynion Corfforaethol (CO'G).

Cydlynnydd Archwilio (RE), Swyddog Gwasanaethau Democraidd (KAE) a'r Gweinyddwr Pwyllgorau (SLW)

### **1 YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan Mrs Gill Greenland (Aelod Cyfetholedig)

### **2 DATGAN CYSYLLTIAD**

Datganodd y Cyngorydd Geraint Lloyd Williams gysylltiad personol sy'n rhagfarnu mewn perthynas ag Eitem 5.

### **3 MATERION BRYN FEL Y CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD**

Ni chodwyd unrhyw faterion bryn.

### **4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF**

Cyflwynwyd cofnodion y Pwyllgor Archwilio Perfformiad a gynhaliwyd ar 20 Mehefin, 2013.

***PENDERFYNWYD** y dylid derbyn a chymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Mehefin, 2013 fel cofnod cywir.*

Ar y pwynt hwn, caniatodd y Cadeirydd i'r Cynghorydd Bill Cowie dynnu sylw at fater gan fod yn rhaid i'r Cynghorydd Cowie adael y cyfarfod yn gynnar ar gyfer ymrwymiad a drefnwyd yn flaenorol.

Cafodd y Cynghorydd Cowie, ynghyd â'r Rheolwr Strategol Priffyrdd a'r Rheolwr Adain: Rheoli Rhwydwaith gyfarfod yn ddiweddar ynglŷn â Pholisi'r Cyngor ar gyrbau is. Byddai adroddiad yn cael ei gyflwyno i gyfarfod y Pwyllgor Archwilio Perfformiad ar 24 Hydref 2013. Byddai'r Pennaeth Amgylchedd a'r Rheolwr Strategol Priffyrdd yn bresennol i gyflwyno'r adroddiad.

Roedd y Rheolwr Gwasanaeth: Ansawdd a Datblygu Systemau wedi bod yn trafod gyda'r Adran Briffyrdd ynglŷn â defnyddio Grantiau Cyfleusterau Anabledd (GCA) i ariannu'r gwaith o osod cyrbau is. Byddai Rheolwr presennol y Tîm Gwella Corfforaethol yn dechrau swydd newydd yr wythnos ganlynol fel y Rheolwr Gwasanaeth: Ansawdd a Datblygu Systemau newydd. Cadarnhaodd, unwaith y byddai yn y swydd, y byddai'n gwirio ymarferoldeb defnyddio GCA i ariannu cyrbau is a gwirio fod y Cyngor yn cysylltu gyda chwmnïau ynni a dŵr wrth gynnal gwaith ar briffyrdd a phalmentydd ac ati, i weld a allai cyrbau is gael eu gosod ar yr un pryd os oes angen.

Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Uchelgais Economaidd a Chymunedol y byddai yn cysylltu â Phenaethiaid y Gwasanaeth Priffyrdd a'r Gwasanaethau Cymdeithasol i sicrhau fod trafodaethau'n cael eu cynnal yn briodol i hwyluso gosod cyrbau is lle bod angen. Byddai'r mater hefyd yn cael ei godi gyda phob Pennaeth Gwasanaeth i sicrhau y byddai ymagwedd gorfforaethol yn cael ei chymryd i ddarparu cyrbau is unwaith y byddai strategaeth / polisi wedi'i fabwysiadu.

## **5 ARHOLIADAU ALLANOL AC ASESIAU ATHRAWON**

Cyflwynodd yr Aelod Arweiniol ar gyfer Addysg, y Cynghorydd Eryl Williams, adroddiad (a gylchredwyd eisoes), i roi gwybodaeth ynglŷn â pherfformiad ysgolion ar bob cyfnod allweddol a chanlyniadau dros dro arholiadau allanol ar Gyfnod Allweddol 6 ac Ôl-16. Byddai dadansoddiad manwl o ganlyniadau'n cael ei gynnig i Aelodau Pwyllgor ar ôl cyhoeddi gwybodaeth wedi'i wirio a'i feincnodi, a fyddai ar gael ym mis Rhagfyr 2013.

I leihau unrhyw risgiau i gefnogaeth a her ysgolion yn ysgolion Sir Ddinbych, mae Swyddogion Addysg yn yr Awdurdod yn monitro ac yn asesu ansawdd y gefnogaeth ranbarthol oddi wrth GwE (y Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion Rhanbarthol).

Mynegwyd pryderon ynglŷn â natur a phwrrpas y profion. Effeithiwyd rhai plant yn emosiynol oherwydd y straen o sefyll y profion. Adroddwyd y pryder gan y Pennaeth Addysg i Lywodraeth Cymru (LIC).

Mynegwyd pryder arall yn sgil y ffaith fod y mwyafrif o athrawon wedi nodi nad oeddynt wedi derbyn hyfforddiant digonol ynglŷn â'r profion.

Rhagwelwyd y dirywiad yng nghanlyniadau Lefel 2 yn Ysgol Uwchradd Prestatyn ac roedd mesurau atodol wedi'u rhoi ar waith felly i geisio lliniaru risg y dirywiad. Holwyd a allai maint yr ysgol fod yn ffactor a oedd yn cyfrannu at hyn. Gwrthodwyd hyn oherwydd y ffaith y gallai perfformiad ysgolion mawr fod yn dda cyhyd a bod strwythurau'r ysgol yn effeithiol. Roedd Cyngor Sir Ddinbych yn gweithio'n agos gydag Ysgol Uwchradd Prestatyn ac roedd disgwyl i swyddogion gwrdd â'r Pennaeth i drafod strategaeth wella a'r mathau o gymorth sydd ar gael gan yr awdurdod addysg lleol a gan GwE.

Yn ystod y drafodaeth ar Ysgol y Santes Ffraid, datganodd y Cynghorydd Geraint Lloyd Williams gysylltiad personol sy'n rhagfarnu gan ei fod yn Llywodraethwr a rhiant yn Ysgol y Santes Ffraid. Gadawodd y Cynghorydd Williams yr ystafell gyfarfod ar y pwynt hwn.

Roedd trafodaethau'n mynd i gael eu cynnal gyda'r Pennaeth Dros Dro yn Ysgol y Santes Ffraid gan fod mater wedi codi yn ymwneud â chyrraeddiad mewn Mathemateg. Byddai strategaeth wella yn cael ei thrafod. Nododd y Pennaeth Addysg ei bod yn ymddangos fod canlyniadau Ysgol y Santes Ffraid yn ddigonol ond roedd lle i wella. Fodd bynnag, roedd amgylchiadau Ysgol y Santes Ffraid yn unigryw.

Cadarnhaodd y Pennaeth Addysg y byddai data Coleg Chweched Dosbarth y Rhyl yn cael ei gasglu pan fyddai'r Coleg yn darparu'r wybodaeth, a byddai'r canlyniadau terfynol ar gael ym mis Ionawr 2014 ynghyd â'r canlyniadau wedi'u dilysu ar gyfer y sir.

**PENDERFYNWYD** fod y Pwyllgor yn derbyn a nodi'r adroddiad yn amodol ar yr uchod.

### **Ar y pwynt hwn (10.15 am) cafwyd toriad am 15 munud**

Ailymunodd y Cynghorydd Geraint Lloyd Williams â'r Pwyllgor.

### **Ailddechreuodd y cyfarfod am 10:30am.**

## **6 CWYNIION PERFFORMIAD EICH LLAIS**

Cyflwynodd yr Aelod Arweiniol Cwsmeriaid a Chymunedau, y Cynghorydd Hugh Irving adroddiad (a gylchredwyd eisoes) yn darparu gwybodaeth i'r Pwyllgor ynglŷn â pherfformiad y Cyngor wrth ddelio ac ymateb i gwynion gan gwsmeriaid. Roedd yr adroddiad hwn yn darparu trosolwg o'r cwynion a dderbyniwyd gan Gyngor Sir Ddinbych dan Bolisi Adborth Cwsmeriaid y Cyngor 'Eich Llais' yn ystod Chwarter 1 2013/14.

Nododd y Pennaeth Cwsmeriaid a Chymorth Addysg fod yr adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio Perfformiad bob chwarter blwyddyn. Cytunwyd yn flaenorol y byddai'r Pwyllgor Archwilio Perfformiad yn monitro'r amserlenni ar gyfer delio â chwynion. Roedd tueddiadau cwynion yn cael eu harchwilio ac roedd gwasanaethau'n ceisio dileu cwynion yn y dyfodol. Dymunai'r Pennaeth Cwsmeriaid a Chymorth Addysg dynnu sylw'r Pwyllgor at y ffaith fod gan y Gwasanaethau Cymdeithasol drefn gwyno wahanol ond roedd yn ceisio rheoli

gwybodaeth yn unol â hynny. Byddai'r Gwasanaethau Cymdeithasol bob amser fis ar ei hôl hi gyda'u data. Ar hyn o bryd, deliwyd â 93% o'u cwynion o fewn y terfynau amser gofynnol.

Cadarnhawyd fod llawer o waith eto i'w wneud o fewn Gwasanaethau Cwsmeriaid. Un cam oedd eto i'w gymryd oedd cynnwys enw'r swyddog oedd yn delio â'r gŵyn a chynnwys hynny ar y cofnod ar y system Rheoli Cyswllt Cwsmer ac yn ymddangos ar yr ymateb i'r cynghorydd sir.

Hefyd roedd Ap yn cael ei ddatblygu i alluogi aelodau i gael y wybodaeth ddiweddaraf am weithgareddau yn y gymuned. Rhoddodd y Pennaeth Cwsmeriaid a Chymorth Addysg amlinelliad cryno o'r modd y byddai'r Ap yn gweithio ac eglurodd y byddai'n cael ei gyflwyno dros y mis nesaf.

Byddai digwyddiad gweithdy yn cael ei gynnal ym mis Hydref, ac roedd aelodau wedi'u gwahodd iddo a byddai diweddiad ar wasanaethau cwsmeriaid yn cael ei roi gyda chyfle i drafod materion mewn rhagor o fanylder.

Roedd ailstrwythuro'r Gwasanaeth Tai a Datblygu Cymunedol wedi'i godi fel mater posibl a allai gynyddu nifer y cwynion a dderbyniwyd, gan fod swyddogion tai bellach yn gyfrifol am dros 1000 o achosion yr un. Byddai'r llwyth gwaith yn debyg o arwain at gynnydd mewn lefelau straen. Nododd y Pennaeth Cwsmeriaid a Chymorth Addysg fod y system CRM yn cofnodi pob galwad a dderbyniwyd. Byddai'r system yn amlygu meysydd lle nad oedd ymatebion yn cael eu hanfon o fewn yr amser a ddynodwyd. Byddai adroddiad misol yn cael ei gynhyrchu i aelodau, yn rhoi gwybod iddynt am y nifer llawn o gwestiynau a gyflwynwyd a'r nifer o ymatebion.

Wedi i'r aelodau ymweld â stoc tai'r Cyngor, holodd aelodau a oedd protocol / arfer safonol wedi bodoli er mwyn i Swyddogion Tai adrodd yn ôl i aelodau ar y cynnydd a wnaed wrth fynd i'r afael â materion a nodwyd yn ystod ymweliadau. Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Uchelgais Economaidd a Chymunedol y byddai'n gwirio ac yn adrodd yn ôl i'r Pwyllgor.

**PENDERFYNWYD** fod y Pwyllgor yn derbyn a nodi'r adroddiad yn amodol ar yr uchod.

## **7 ADRODDIAD ADOLYGIAD PERFFORMIAD BLYNYDDOL 2012/13**

Cyflwynodd yr Aelod Arweiniol dros Foderneiddio a Pherfformiad, y Cynghorydd Barbara Smith, adroddiad (a gylchredwyd eisoes) a oedd yn galluogi aelodau i graffu ar yr adroddiad drafft, cyn cyflwyno'r drafft terfynol i'r Cyngor ar 8 Hydref 2013.

Mae gofyn i'r Cyngor gyhoeddi adroddiad blynyddol ar ei berfformiad erbyn 31 Hydref pob blwyddyn. Roedd yr adroddiad a gyflwynwyd i'r Pwyllgor yn dangos Adolygiad Perfformiad Blynyddol drafft y Cyngor ar gyfer 2012/13.

Roedd bylchau arwyddocaol o fewn yr adroddiad drafft. Un rheswm am hyn yw nad oedd y dyddiad cau ar gyfer ymatebion i'r arolwg trigolion tan ddydd Gwener 20



Medi. Yn gyffredinol, roedd yr adroddiad yn dangos fod Sir Ddinbych wedi cael blwyddyn arall gadarnhaol yn 2012/13 a'i pherfformiad oedd y gorau yng Ngogledd Cymru unwaith eto. Yr adroddiad oedd blwyddyn gyntaf Cynllun Corfforaethol pum mlynedd. Dangoswyd y rhesymau dros y nifer o eitemau "coch" yn y Cynllun Corfforaethol.

Datblygwyd a chytunwyd ar Gynllun Corfforaethol 5 mlynedd yn ystod 2012. Roedd y Cynllun yn cynnwys y flaenoriaeth Uchelgais Economaidd newydd. Gan fod hon yn flaenoriaeth newydd, roedd angen cwmpasu a diffinio yn ofalus gyda'r bwriad o fesur llwyddiant yn y maes hwn. Roedd yn llawer rhy fuan i ddisgwyl profi llwyddiant yn y maes hwn gan fod y flaenoriaeth Uchelgais Economaidd yn un tymor hir.

Un dangosydd a oedd yn achosi pryder oedd y dirywiad ym mherfformiad yr Adran Gynllunio, ac ymddangosai nad oedd ar hyn o bryd yn llwyddo i ddelio â cheisiadau cynllunio o fewn yr amserlen o 8 wythnos. Gofynnodd Aelodau am gymhariaeth gyda ffigyrau ceisiadau a dderbyniwyd yn 2011/12 a 2012/13 yn ogystal â'r nifer o staff a gyflogwyd o fewn yr Adran Gynllunio dros y ddwy flynedd honno. Cytunwyd y dylid holi'r Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd, yn yr Her Wasanaeth nesaf pam fod perfformiad y Gwasanaeth yn erbyn yn ddangosydd yn is yn 2012/13 nac yn 2011/12.

Gofynnodd Aelodau i ychwanegu dyddiad yr adroddiad Adolygiad Perfformiad Blynyddol i'r clawr blaen er mwyn ei gwneud yn hawdd cyfeirio ato. Dylid hefyd ystyried defnyddio llai o liw (neu raddliwio ar y clawr blaen) er mwyn arbed inc. Gofynnodd Aelodau hefyd i swyddogion ddilysu'r ystadegyn yn ymwneud â'r swm cyfartalog o gostau teithio busnes a hawliwyd fesul gweithiwr y Cyngor cyn cyflwyno'r adroddiad i gael ei gymeradwyo gan y Cyngor Sir, gan fod y cyfanswm yn ymddangos yn ormodol.

***PENDERFYNWYD*** – bod yr Adolygiad Perfformiad Blynyddol drafft 2012/13 yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor Sir er mwyn cael ei gymeradwyo.

Dymunodd y Pwyllgor yn dda i Tony Ward yn ei swydd newydd fel Rheolwr Gwasanaeth: Ansawdd a Datblygu Systemau ac anfonwyd eu dymuniadau gorau i'r dyfodol at Craig MacLeod yn ei swydd newydd gyda Chyngor Sir y Fflint a diolchwyd iddo am ei wasanaeth i Sir Ddinbych.

## **8 DYFODOL ADRODD PERFFORMIAD**

Cyflwynodd yr Aelod Arweiniol dros Foderneiddio a Pherfformiad, y Cynghorydd Barbara Smith adroddiad (a gylchredwyd eisoes) i ymgynghori ag aelodau ar y trefniadau i'r dyfodol ar gyfer adrodd ar berfformiad yn erbyn y Cynllun Corfforaethol.

Byddai Rheolwr y Tîm Gwella Corfforaethol yn gadael ei swydd ar 20 Medi 2013 yn sgil dyrchafiad mewnol. Felly, er mwyn sicrhau arbedion effeithlonrwydd, penderfynwyd dileu swydd Rheolwr y Tîm Gwella Corfforaethol a datblygu ffordd newydd o gyflawni busnes craidd y Gwasanaeth. Roedd gwahanol dimau'n adrodd ar berfformiad yn erbyn y Cynllun Corfforaethol a'r Cynllun Mawr, ond byddai'r

ddwy dasg yn cael eu tynnu ynghyd dan swyddogaeth sengl gan fod y ddau gynllun yn defnyddio'r un fframwaith rheoli perfformiad. Yn hytrach nac adrodd bob chwarter a chymryd amser aelodau a swyddogion, awgrymwyd y gellid cyfuno Adroddiad Monitro'r Cynllun Corfforaethol a'r adroddiad ar y Gofrestr Risg yn y dyfodol ac adrodd i'r Pwyllgor Archwilio Perfformiad ddwywaith y flwyddyn ar ddiwedd Chwarter 2 a Chwarter 4. Byddai'r Adroddiad Adolygu Perfformiad Blynyddol drafft yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor yn ei gyfarfod ym mis Hydref bob blwyddyn.

Cytunwyd y byddai'r adroddiad yn cael ei gyflwyno ddwywaith y flwyddyn ac ar y rhaglen berthnasol, byddai awr yn cael ei neilltuo i glywed yr adroddiad. Oherwydd y trefniant hwn, byddai'r nifer o eitemau ar y rhaglen yn gostwng o 4 i 3 er mwyn caniatáu amser i gael trafodaeth fanwl.

**PENDERFYNWYD** fod y Pwyllgor yn cefnogi'r cynigion i:

- (i) *Ostwng y nifer o Adroddiadau Perfformiad Cynllun Corfforaethol yn ystod y flwyddyn o 4 i 2 y flwyddyn. Yn ychwanegol i hyn, byddai'r pwyllgor yn dal i dderbyn Adroddiad Perfformiad Blynyddol.*
- (ii) *Gostwng maint yr adroddiadau hyn yn ystod y flwyddyn fel eu bod yn canolbwyntio'n unig ar eithriadau mewn perthynas â mesurau a gweithgareddau perfformiad (h.y. pethau y gallent gael dylanwad positif arnynt).*
- (iii) *Alinio'r adolygiadau chwe-misol ar y Gofrestr Risg Corfforaethol fel eu bod yn cael eu hystyried gan y Pwyllgor Archwilio Perfformiad ar yr un pryd â'r Adroddiadau Perfformiad chwe-misol bwriedig ar y Cynllun Corfforaethol.*

## 9 RHAGLEN WAITH ARCHWILIO

Cyflwynwyd Adroddiad gan y Cydlynnydd Archwilio (a gylchredwyd eisoes) yn gofyn i'r Aelodau adolygu Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Pwyllgor:

- (i) Bydd Ymweliadau â Darparwyr Mewnol yn cael eu cynnwys ar Raglen Gwaith i'r Dyfodol mis Mawrth 2014, ac yn flynyddol wedi hynny.
- (ii) Ychwanegu Cynllun Corfforaethol a Chofrestr Risg Gorfforaethol ar y cyd i gyfarfod mis Mawrth 2014. Symud y gofrestr risg o fis Ionawr 14 i fis Mawrth 14.
- (iii) Cynhaliwyd cyfarfod rhwng Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion Archwilio a'r Aelodau Cabinet yn ddiweddar. Aelodau Arweiniol i fynychu'r Pwyllgor Archwilio pan fod yr adroddiad ar y Rhaglen yn gofyn am hynny. Cytunwyd y bydd y Cynghorydd David Smith yn bresennol ar 24 Hydref 2013.
- (iv) Cafwyd trafodaeth ynglŷn â'r eitem Barcio oedd wedi'i threfnu ar y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol. Roedd wedi'i rhannu yn 2 adran ar hyn o bryd – un adran i'w thrafod gan Archwilio Perfformiad a'r llall i gael ei thrafod yn Archwilio Cymunedau. Byddai'n well gan CET a'r SLT iddi fod yn un eitem. Nododd y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Uchelgais Economaidd a Chymunedol mai trafodaeth bolisi ar gyfer y pwyllgor Archwilio Cymunedau oedd hon yn ei barn hi. Cytunwyd ac eiliwyd y dylai'r eitem gael ei thrafod gan y Pwyllgor Archwilio Cymunedau. Cynhaliwyd pleidlais. 3 o blaid a 4 yn erbyn. Cytunwyd felly i beidio a gosod yr eitem ar Raglen Gwaith i'r Dyfodol y Pwyllgor Archwilio Perfformiad nes bod y Pwyllgor Archwilio Cymunedau

wedi ei thrafod yn gyntaf. Cytunwyd gohirio'r eitem o Raglen Gwaith i'r Dyfodol mis Hydref tan ar ôl trafodaeth y Pwyllgor Archwilio Cymunedau ym mis Tachwedd ar effaith strategaeth orfodi parcio'r Cyngor ar allu'r Cyngor i gyflawni ei flaenoriaeth a'i uchelgais gorfforaethol mewn perthynas â datblygu economaidd.

- (v) Ychwanegu Risgiau Adeilad Rhestredig Gradd 2 i Raglen Gwaith i'r Dyfodol cyfarfod mis Rhagfyr 2013.
- (vi) Bydd adroddiad er gwybodaeth yn cael ei gylchredeg ar lefel defnydd y Cyngor o staff dysgu llanw a disgwyliadau'r Awdurdod ohonynt. Gwnaed y cais hwn yn sgil adroddiad cenedlaethol diweddar ar y defnydd o athrawon llanw gan awdurdodau addysg lleol a'r effaith ar safonau addysgol disgyblion.

***PENDERFYNWYD*** y dylid cymeradwyo'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol yn amodol ar y newidiadau, ychwanegiadau a'r cytundebau uchod.

## **10 ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR PWYLLGOR**

Rhoddodd y Cynghorydd Richard Davies adroddiad llafar ar y cyfarfod chwarterol diweddar y cafodd gyda'r Gwasanaeth Adnoddau Dynol. Y prif bwyntiau oedd bod cyfraddau absenoldeb salwch yn is na'r un adeg y llynedd ar hyn o bryd. Roedd yr holl Wasanaethau wedi'u hatgoffa o bwysigrwydd sicrhau fod gwiriadau CRB wedi'u diweddarau ac ar y gofyn i gydymffurfio â'r polisi hwn ac ar y polisi yn ymwneud â derbyn geirdaon cyn cadarnhau penodiadau.

**Daeth y cyfarfod i ben am 12.30pm**

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

|                                  |                                                                                                                   |
|----------------------------------|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| <b>Adroddiad i'r:</b>            | <b>Pwyllgor Archwilio Perfformiad</b>                                                                             |
| <b>Dyddiad y Cyfarfod:</b>       | <b>24 Hydref 2013</b>                                                                                             |
| <b>Aelod/ Swyddog Arweiniol:</b> | <b>Aelod Arweiniol dros Barth y Cyhoedd</b>                                                                       |
| <b>Awdur yr Adroddiad:</b>       | <b>Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd/<br/>Rheolwr Gwarchod y Cyhoedd</b>                                    |
| <b>Teitl:</b>                    | <b>Gwasanaeth Teledu Cylch Caeedig (TCC) a<br/>Galwadau Ffôn tu allan i Oriau Gwaith Arferol<br/>Sir Ddinbych</b> |

---

## **1. Beth yw cynnwys yr adroddiad?**

- 1.1 Ymgynghori â'r Aelodau ar nifer o ddewisiadau i foderneiddio, uwchraddio a gwella Gwasanaeth Teledu Cylch Caeedig (TCC) a thîm Galwadau Ffôn tu allan i Oriau Gwaith Arferol y Cyngor.

## **2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?**

- 2.1 Yn y cyfarfod ym mis Ebrill dyma'r Aelodau'n gofyn yn arbennig am adroddiad ar y wybodaeth ddiweddaraf ar y cynnydd sydd wedi'i wneud gyda chynigion i ddatblygu gwasanaeth Teledu Cylch Caeedig (TCC) a Galwadau Ffôn tu allan i Oriau Gwaith Arferol.

## **3. Beth yw'r Argymhellion?**

Bod yr Aelodau yn:

- 3.1 nodi ac yn gwneud sylwadau ar gynnwys yr adroddiad, wedi'i gefnogi gan fentrau arfaethedig, a chytuno ar yr angen i Swyddogion ymgymryd â dadansoddiad achos busnes manwl ar bob un o'r cynigion; a
- 3.2 phenderfynu os ydyw'n briodol i'r Pwyllgor ystyried adroddiad sy'n rhoi diweddariad ar y cynnydd o fewn 6 mis.

## **4. Manylion am yr adroddiad**

- 4.1 Mae canolfan gwasanaeth Teledu Cylch Caeedig (TCC) a Galwadau Ffôn tu allan i Oriau Gwaith Arferol yn cael ei weithredu a'i reoli gan y Wasanaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd. Mae'r ganolfan wedi'i lleoli yng Ngorsaf yr Heddlu, y Rhyl.
- 4.2 Mae darparu gwasanaeth TCC i fannau cyhoeddus yn gyfraniad allweddol at gyfrifoldebau Sir Ddinbych o dan y Ddeddf Trosedd ac Anhrefn 1998, ac yn cael ei gydnabod gan y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol (Heddlu Gogledd Cymru yn arbennig), Swyddogion Gorfodi yn y Cyngor a'r Aelodau o ddarparu gwasanaeth rhagorol a hanfodol. Er hynny, mae'r TCC mewn manau

cyhoeddus yn brin yn y Rhyl, Prestatyn a rhan fechan o Ruddlan h.y. nid yw'n wasanaeth eang gan y Cyngor.

- 4.3 Prif ddiben y system yw cefnogi'r ffordd y mae'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol yn lleihau'r lefel o drosedd yn ogystal â lleihau'r gofid o drosedd, a sicrhau amgylchedd cyhoeddus diogel ar gyfer unigolion sy'n byw, yn ymweld, ac sy'n gweithio yn yr ardal.
- 4.4 Swyddogion y Cyngor sy'n rhedeg ystafell reoli'r TCC, ac maent yn gweithio sifftiau er mwyn cael gwasanaeth 24 awr, 7 diwrnod yr wythnos, 365 diwrnod y flwyddyn. Gan ei fod yn waith 24/7 maent hefyd yn gyfrifol am Reoli Cyswllt Cwsmer y Cyngor (yr unig fan cyswllt) tu allan i oriau gwaith arferol (e.e. mae'r tîm yn derbyn galwadau i'r Cyngor gan y cyhoedd yn ystod nosweithiau/hwyr nos, penwythnosau, gwyliau cyhoeddus ayb).
- 4.5 Bydd aelodau'n ymwybodol mai dim ond yn ddiweddar y gwnaethpwyd penderfyniad ar brosiect dichonoldeb sydd wedi bod ar y gweill ers tro byd i sefydlu ystafell reoli TCC ar gyfer Gogledd Cymru. Penderfynwyd nad oedd y Rhanbarth eisiau symud ymlaen â'r prosiect ac fe gytunodd Swyddogion a Swyddog Arweiniol y Cyngor â'r penderfyniad hwnnw. Drwy gymryd na fydd y Prosiect Rhanbarthol yn symud yn ei flaen mae Swyddogion ac Aelodau yn eiddgar i weld sut y gellir datblygu tîm TCC/Galwadau tu allan i Oriau Gwaith Arferol er mwyn cynnig gwasanaeth ehangach a mwy effeithiol. Rhaid gwneud hynny yn erbyn Cynllun Ariannol Tymor Canolig y Cyngor sydd wedi rhoi targed i'r tîm TCC/Galwadau tu allan i Oriau Gwaith Arferol o leihau ei gyllideb o draean (o lefel cyllideb 10/11 o £341k) erbyn blwyddyn ariannol 2014/15. Felly, erbyn 2014/15 dylid lleihau'r gyllideb o £341k y flwyddyn i £228k (hy arbediad net o £113k). Mae £50k o'r arbediad hynny wedi'i wneud yn barod, sy'n golygu bod angen cael gafael ar £63k dros y 18 mis nesaf.
- 4.6 Mae Swyddogion wedi llunio rhestr o gynigion ar sut i drawsnewid swyddogaethau'r tîm a gwneud arbedion ar yr un pryd, a chyn symud ymlaen i wneud dadansoddiad o achos busnes mwy manwl ar bob un o'r opsiynau gofynnwyd i'r Aelodau am eu safbwyntiau.
- 4.7 Mae'r holl gynigion wedi eu hatodi i Atodiad 1 ac wedi eu sefydlu ar braesept o gynnal y gwasanaeth 24/7 ar gyfer TCC a chanolfan galw tu allan i Oriau Gwaith Arferol y Cyngor. Mae Atodiad 1 wedi ei eithrio rhag datgeliad cyhoeddus yn unol â pharagraff 14 o Atodiad 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.
- 4.8 Yn dibynnu ar safbwyntiau'r Aelodau, bydd yr holl gynigion wedi eu cynnwys yn Atodiad 1 yn cael eu harchwilio ymhellach drwy ymgymryd â dadansoddiad achos busnes manwl ar bob un. Bydd y gwaith hwn yn cynnwys Swyddogion o

bob cwr o'r Cyngor, ond yn arbennig adrannau Gwarchod y Cyhoedd, Eiddo, Hamdden, Addysg, Priffyrdd, Tai a Chyllid.

## **5. Sut y mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

5.1 Mae'r gwasanaeth TCC a Galwadau Tu Allan i Oriau Gwaith yn cyfrannu'n uniongyrchol at flaenoriaethau corfforaethol o ddiogelu'r diamddiffyn yn ein cymunedau, cadw ein strydoedd yn lân a thaclus a dod â'r Cyngor yn nes at y gymuned.

## **6. Beth fydd y gost a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

6.1 Nid oes costau uniongyrchol yn gysylltiedig â'r adroddiad hwn. Bydd unrhyw oblygiadau yn y gyllideb ar gyfer y dyfodol yn cael ei asesu trwy ddadansoddiad achos busnes manwl ar gyfer pob opsiwn. Yn dibynnu ar ganlyniadau'r dadansoddiad achos busnes manwl efallai y bydd yna oblygiadau ehangach, ond bydd angen ystyried y rhain bryd hynny.

## **7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb a gynhaliwyd am y penderfyniad? Wedi gwneud (AoEaG) ar y penderfyniad? Dylid atodi'r templed AoEaG fel atodiad i'r adroddiad hwn.**

7.1 Mae effaith posib yr opsiynau hyn wedi cael asesiad AoEaG. Os penderfynir symud ymlaen ag unrhyw un o'r cynigion a soniwyd amdanynt yn gynharach yna rhaid eu hasesu am effaith cydraddoldeb fel rhan o ddadansoddiad achos busnes manwl.

## **8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi eu gwneud â'r pwyllgor Archwilio ag eraill?**

8.1 Dim ar hyn o bryd, er disgwylir y bydd angen ymgynghoriad pellach ar nifer o opsiynau arfaethedig cyn y gellir eu gweithredu.

## **9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

9.1 Mae'r achos busnes angen ystyried yr arbedion arfaethedig yn y dyfodol gyda TCC ac effaith lleihad yn y gyllideb. Ar hyn o bryd nid oes goblygiadau ariannol pellach.

## **10. Pa risgiau posib sy'n bodoli ac oes yna unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau nhw?**

10.1 Nid oes unrhyw risgiau uniongyrchol yn gysylltiedig â'r adroddiad hwn.

## **11. Grym i wneud Penderfyniad**

11.1 Dim angen penderfyniad ffurfiol.

11.2 Erthygl 6.3.2(c) o Gyfansoddiad y Cyngor sy'n amodi y gall y pwyllgor Archwilio "ystyried unrhyw fater sy'n effeithio'r ardal neu ei drigolion", ac Erthygl 6.3.3(a) yn nodi fod y pwyllgor Archwilio yn gallu "cynorthwyo'r Cyngor a'r Cabinet i ddatblygu ei gyllideb a'i fframwaith polisi..."

**Swyddog Cyswllt:**

Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd  
01824 706925



Yn rhinwedd Paragraff(au) 12 Rhan 4, Atodlen 12A  
Deddf Llywodraeth Leol 1972.

Document is Restricted

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

|                            |                                                                                |
|----------------------------|--------------------------------------------------------------------------------|
| <b>Adroddiad i'r:</b>      | <b>Pwyllgor Archwilio Perfformiad</b>                                          |
| <b>Dyddiad y Cyfarfod:</b> | <b>24 Hydref 2013</b>                                                          |
| <b>Aelod Arweiniol:</b>    | <b>Aelod Arweiniol dros Barth y Cyhoedd</b>                                    |
| <b>Awdur yr Adroddiad:</b> | <b>Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd/<br/>Rheolwr Gwarchod y Cyhoedd</b> |
| <b>Teitl:</b>              | <b>Diweddariad ynglŷn â Thrwyddedu Tacsis</b>                                  |

---

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

- 1.1 Mae'r adroddiad yn rhoi diweddariad ynglŷn â swyddogaeth y Cyngor o ran Trwyddedu Tacsis a newidiadau diweddar i weithdrefnau ac awdurdod dirprwyo.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

- 2.1 Rhoi gwybod i'r Aelodau am y cynnydd sydd wedi ei wneud wrth adolygu swyddogaeth y Cyngor o ran trwyddedu tacsis gan gynnwys rhoi gweithdrefnau gwell a mwy cadarn ar waith er mwyn amddiffyn y cyhoedd, yn enwedig pobl ddiamddiffyn o fewn ein cymunedau.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod yr Aelodau'n ystyried yr wybodaeth a ddarparwyd ac yn rhoi sylwadau yn unol â hynny.

## 4. Manylion am yr adroddiad.

- 4.1 Bydd yr Aelodau'n cofio i adroddiad yn rhoi diweddariad ynglŷn â'r adolygiad cynhwysfawr sy'n digwydd o systemau trwyddedu tacsis gael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio ym mis Tachwedd 2012 a oedd yn rhoi gwybod i'r Aelodau am y rhaglen gwaith sydd gan y Pwyllgor Trwyddedu o'i flaen i'r dyfodol. Cefnogodd yr Aelodau'r dull sy'n cael ei ddatblygu. Yr ydym yn awr yn gallu darparu diweddariad pellach ar y gwaith a wnaed hyd yma.

- 4.2 Ar hyn o bryd yn Sir Ddinbych mae:

| <b>Math o Drwydded</b>                                      | <b>Y Nifer sydd wedi eu Rhoi</b> |
|-------------------------------------------------------------|----------------------------------|
| Gweithredwyr Cerbydau Hurio Preifat Trwyddedig              | 17                               |
| Cerbydau Hurio Preifat Trwyddedig                           | 84                               |
| Gyrrwr Hurio Preifat Trwyddedig                             | 49                               |
| Cerbydau Hacni Trwyddedig (Tacsis)                          | 238                              |
| Gyrrwyr cerbydau hacni a cherbydau hurio preifat trwyddedig | 338                              |

Caiff trwyddedau eu derbyn, eu hystyried a'u cyhoeddi gan Swyddogion Trwyddedu yn Adain Gwarchod y Cyhoedd. Caiff trwyddedau cerbydau eu cyhoeddi gan y Gwasanaethau Fflyd unwaith fod hynny wedi cael ei awdurdodi gan Swyddogion Trwyddedu. Mae a wnelo system weinyddu trwyddedu fodd bynnag, â nifer o Swyddogion, gan gynnwys Swyddogion Trwyddedu, Swyddogion Gorfodi Diogelwch Cymunedol, Swyddogion o'r Gwasanaethau Fflyd, Aelodau ac asiantaethau allanol, gan gynnwys yr heddlu. Mae'n bwysig, felly, i sicrhau fod system gadarn yn ei lle y mae'r holl bartion yn ei deall. Yn ychwanegol at system weinyddu Trwyddedu mae angen cyfundrefn orfodi gref, ragweithiol o dan arweiniad tîm Gorfodi Diogelwch Cymunedol y Cyngor, sydd hefyd yn dod o dan Adain Gwarchod y Cyhoedd. Caiff gorfodi ei wneud yn aml trwy ddull partneriaeth gyda Swyddogion yn gweithio'n agos ag Asiantaethau Gorfodi eraill.

- 4.3 Yn ogystal â thrwyddedu tacsis a'r gorfodi sy'n digwydd yn gysylltiedig â hynny, mae'r weinyddiaeth Trwyddedu a'r Swyddogion Gorfodi Diogelwch Cymunedol hefyd yn trwyddedu ac yn rheoleiddio amrywiaeth o weithgareddau trwyddedig eraill e.e. Trwyddedau Eiddo a Thrwyddedau Personol at ddibenion gwerthu alcohol, trwyddedau safle gamblo, masnachu stryd, rheoliadau marchnad ac ati.
- 4.4 Mae cyfanswm yr incwm a dderbyniwyd gan yr holl faterion sy'n gysylltiedig â thrwyddedu yn Adain Diogelu'r Cyhoedd oddeutu £225k ac mae tua £115k ohono wedi ei gynhyrchu o weithgareddau sy'n gysylltiedig â thacsis.
- 4.5 Er mwyn sicrhau bod y broses o drwyddedu tacsis mor gadarn â phosibl cynhaliwyd adolygiad meddwl trwy systemau llawn o'r prosesau trwyddedu tacsis. Hwyluswyd hyn gan archwiliad mewnol a oedd yn cynnwys Swyddogion Trwyddedu, Swyddogion Gorfodaeth Diogelwch Cymunedol, Swyddogion y Gwasanaethau Fflyd, Swyddogion Cyfreithiol, Swyddogion y Gwasanaethau Cymdeithasol a Swyddogion Heddlu Gogledd Cymru.
- 4.6 Adolygodd y grŵp 8 proses unigol gogyfer â thrwyddedu tacsis a chynhyrchu gweithdrefnau newydd diwygiedig. Cafodd y rhain eu hadolygu maes o law gan gyfreithiwr trwyddedu arbenigol (James Button) i sicrhau eu bod yn gadarn yn gyfreithiol.
- 4.7 Cafodd yr holl weithdrefnau diwygiedig eu cyflwyno i Bennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd i'w cymeradwyo fis Mai 2013 a chawsant eu cymeradwyo wedi hynny gan y Pwyllgor Trwyddedu fis Mehefin 2013. Maent bellach yn cael eu gweithredu gan swyddogion. Roedd y gweithdrefnau newydd yn cynnwys newidiadau i'r cytundeb dirprwyo. Yn Atodiad 1 mae dogfennau'r weithdrefn newydd fel y cawsant eu cymeradwyo gan y Pwyllgor Trwyddedu.
- 4.8 Yn ychwanegol at yr adolygiad o weithdrefnau, rydym hefyd yn cynnal adolygiad llawn o'n polisiau trwyddedu tacsis. Mae hyn yn cynnwys safonau ar gyfer euogfarnau ac ymddygiad gyrwyr, cod gwisg, safonau cerbydau a safonau eraill. Dechreuwyd y broses hon wrth ymgysylltu â'r cyhoedd i ddarganfod yr hyn mae trigolion ac ymwelwyr yn ei feddwl am y fasnach

dacsis a'u profiadau o ddefnyddio tacsis o fewn y sir. Mae canfyddiadau'r ymarferiad hwnnw'n cael eu cywain yn awr cyn cynnal unrhyw drafodaethau mewnol pellach ynglŷn â chynnwys unrhyw Bolisi diwygiedig i'r dyfodol.

- 4.9 Bwriad Polisi diwygiedig yw rhoi safonau uwch i ni a ddylai godi safonau hyd yn oed ymhellach o fewn y fflyd tacsis. Mae'n fwrriad hefyd i gyflwyno system o bwyntiau cosb am dorri amodau'r drwydded; fel y gellir cymryd camau gorfodi cynyddrannol yn erbyn deiliaid trwydded sy'n torri amrywiaeth o amodau'n rheolaidd. Y gobaith oedd y byddai'r Polisi diwygiedig yn cael ei adrodd wrth y Pwyllgor Trwyddedu fis Rhagfyr. Fodd bynnag, mae'r prosiect yn fwy cymhleth nag a ragwelwyd i ddechrau, ac felly gofynnir fis Rhagfyr i'r Pwyllgor Trwyddedu adolygu ei Raglen Gwaith i'r Dyfodol, gan gynnwys nodi pryd fyddai'r amser gorau i adrodd ynglŷn â'r polisi diwygiedig. Yn Atodiad 2 mae copi o Raglen Gwaith i'r Dyfodol y Pwyllgor Trwyddedu.
- 4.10 Mae swm sylweddol o waith gorfodi wedi cael ei wneud yn ystod y cyfnod diwethaf i fynd i'r afael â'r gyrywyr a gweithredwyr nad ydynt yn cydymffurfio. Mae hyn wedi bod yn rhan o ddull gweithredu aml-asiantaeth ar y cyd â VOSA, Heddlu Gogledd Cymru ac asiantaethau eraill, gan gynnwys yr Adran Gwaith a Phensiynau. Mae nifer o ymgyrchoedd wedi cael eu cynnal, lle mae tacsis wedi cael eu stopio ar y ffordd a'u harchwilio er mwyn gwneud yn siŵr eu bod yn ddiogel a'u bod yn cael eu gweithredu yn unol ag amodau eu trwydded. Mae hyn wedi arwain at ddiarddel sawl un a gwahardd eraill ac at fod rhai tacsis wedi cael eu tynnu oddi ar y ffordd ar unwaith oherwydd safon wael y cerbydau. Mae'r ymgyrchoedd hyn yn cael effaith wrth wella safonau a bellach mae ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o fewn y fasnach y byddwn yn cymryd camau cadarn a chymesur yn erbyn gweithredwyr nad ydynt yn cydymffurfio. Yn Atodiad 3 mae eitemau sy'n ymwneud â chysylltiadau cyhoeddus mewn perthynas â Gwaith Gorfodi Tacsis dan arweiniad ein tîm Gorfodaeth Diogelwch Cymunedol.

## **5. Sut y mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

- 5.1 Mae'r gwaith i adolygu'r broses o drwyddedu tacsis, gyda phwyslais arbennig ar ddiogelu'r cyhoedd yn cyfrannu'n uniongyrchol at y flaenoriaeth gorfforaethol o 'Amddiffyn pobl ddi-amddiffyn' a hefyd at y nod ehangach a'r Canlyniad Gwasanaeth o gadw ein cymunedau'n ddiogel.

## **6. Beth fydd y gost a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

- 6.1 Bydd y gost yn cael ei diwallu o fewn cyllidebau gwasanaeth a bydd y gweithdrefnau newydd yn gwella trefniadau llywodraethu mewnol wrth ymdrin â'r fasnach tacsis ac wrth ddiogelu'r cyhoedd.

## **7. Beth yw prif gasgliadau'r asesiad a gynhaliwyd ynglŷn ag effaith y penderfyniad ar gydraddoldeb?**

- 7.1 Nid oes angen asesiad o effaith y penderfyniad hwn ar gydraddoldeb. Mae Aseidiadau o Effaith ar Gydraddoldeb wedi eu cynnal a byddant yn cael eu cynnal ar gyfer pob adolygiad gweithdrefn a pholisi.

**8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd â'r Pwyllgor Archwilio a phwyllgorau eraill?**

8.1 Ymgynghorwyd trwy gydol y broses hon gyda Swyddogion Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd, Swyddogion y Gwasanaethau Fflyd, Swyddogion y Gwasanaethau Cyfreithiol, Swyddogion Heddlu Gogledd Cymru, Swyddogion y Gwasanaethau Cymdeithasol, y fasnach dacsis drwyddedig ac aelodau o'r cyhoedd. Caiff y Pwyllgor Trwyddedu ei ddiweddarau'n llawn, ac mae'n awdurdodi newidiadau i bolisiau a gweithdrefnau ac yn gwneud penderfyniadau ar ystod o faterion trwyddedu.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Nid oes goblygiadau ariannol pellach, caiff y costau eu diwallu o fewn cyllidebau presennol.

**10. Pa risgiau sy'n bodoli ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Mae'r adolygiad o weithdrefnau a pholisiau wedi'i gynllunio i leihau'r risg o gamweinyddu gweithdrefnol ac nid er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn cymryd camau priodol i reoleiddio'r fasnach tacsis a diogelu'r cyhoedd.

**11. Grym i wneud Penderfyniad**

Mae Erthygl 6.3.3(a) Cyfansoddiad y Cyngor yn nodi beth yw grymoedd y Pwyllgorau Archwilio mewn perthynas â datblygu polisi.


**Swyddog Cyswllt:**

Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd  
01824 706925

## Planning and Public Protection Service

**Name of Procedure:**

**Procedure for dealing with expired insurance and compliance documents**

|                                                             |                                                                                                                   |
|-------------------------------------------------------------|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| <b>Author / Custodian:</b>                                  | Nicky Jones                                                                                                       |
| <b>Date agreed and implemented:</b>                         | Agreed: 12th June 2013<br>Implemented: 1 <sup>st</sup> August 2013                                                |
| <b>Agreed by:</b>                                           | Licensing Committee                                                                                               |
| <b>Frequency of Review:</b>                                 | Annual                                                                                                            |
| <b>Review date:</b>                                         | May/June 2014                                                                                                     |
| <b>Equality Impact Assessment completed:<br/>(date)</b>     | N/A                                                                                                               |
| <b>Member involvement (if any)</b>                          | Licensing Committee                                                                                               |
| <b>Internal or Public Domain:</b>                           | Public Domain                                                                                                     |
| <b>Head of Service Approval:<br/>(signature &amp; date)</b> | <br>22 <sup>nd</sup> May 2013 |

### VERSION CONTROL:

| Reference: | Status: | Authorised by:      | Date:    |
|------------|---------|---------------------|----------|
| V01        | Final   | Licensing Committee | 12.06.13 |

## 1. Purpose

To ensure consistency of administering and enforcing the Hackney Carriage and Private Hire legislation and the safety of the travelling public throughout the County of Denbighshire. This procedure aims to provide practical guidelines for officers to be clear on what process need to be followed when dealing with insurance and compliance documents and to ensure that legislation is adhered to.

## 2. Related Documents

Town Police Clauses Act 1847

Local Government (Miscellaneous Provisions) Act 1976 Section 49

Blue Book (Conditions and Policy)

Flowcharts Attached

## 3. Officer Delegations

The Licensing Committee have delegated to the Head of Service who has subsequently authorised the following Officers to carry out the functions detailed below.

| <b>FUNCTION</b>                                             | <b>OFFICER</b>                                                                                                                      |
|-------------------------------------------------------------|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| Suspension of vehicle licence under Section 60 LG(MP)A 1976 | Head of Service or<br>Public Protection Manager or<br>Senior Licensing Officer or<br>Senior Community Safety<br>Enforcement Officer |

## 4. Legislation/Policy

There is no specific section of the legislation that requires a proprietor of a vehicle licence to provide continuous cover of insurance and compliance/MOT certificates. It is a condition of their licence, contained within the policy and conditions.

The existing policy states:

The licensee shall ensure that renewed motor insurance cover and certificate of compliance are submitted to the Licensing Officer, in original form, either prior to or on their expiry. Failure to provide such documentation will result in the immediate suspension of licences.

## 5. Process

- i) Weekly report printed from Licensing System of documents that have expired
- ii) Suspension notice issued and signed by SLO/LEO. Suspension will only take effect after 21 days so it will give the licensee time to submit the updated document.



- iii) Update licensing system
- iv) Notify School Transport and Social Services Contract Teams
- v) If the documents are received within the 21 days then the suspension will be lifted
- vi) SLO to issue a letter lifting the suspension.
- vii) Inform School Transport and Social Services Contract Teams that the vehicle is no longer suspended
- viii) Update Licensing system.
- ix) If the documents are not received within the 21 days then the suspension is in force and Enforcement will be instructed to remove the plate(s) from the vehicle if the licence holder has not surrendered it.
Y cam nesaf yw trefnu ymgynghoriad â'r gymuned leol. Bydd hynny'n canolbwyntio ar fynediad lleol i bencampwyr/grwpiau, a defnyddir yr ymgynghoriad i ddatblygu meini prawf. Mae'r cyfarfod hwn wedi'i drefnu ar gyfer 5 Tachwedd 2013.

Defnyddir y cyfalaf y bydd yr adran Priffyrdd yn ei dderbyn gan y Cyngor ar gyfer cynlluniau traffig, gwaith llenwi tyllau, goleuadau stryd ayb. Byddai'n syniad cadw arian o'r gyllideb Priffyrdd o'r neilltu ar gyfer ymyl palmentydd isel. Costau gwaith ar y cyfryw yn oddeutu £600 ar gyfer pob croesfan, felly byddai dyraniad cychwynnol o £30,000 yn briodol i ddatblygu rhaglen gynaliadwy. Lle bynnag fo'n bosib defnyddir cyllid allanol, ee datblygu llwybrau beicio.

Mae hyd yn oed archwiliad cryno o leoliadau yn dynodi fod yna angen go iawn i wella'r sefyllfa ond mi fydd adnoddau'n brin ac felly mae'n rhaid i'r polisi adlewyrchu'r cyfyngiadau hyn drwy roi arweiniad amlwg (yn deillio o adborth gan fudd-ddeiliaid) ar sut i flaenoriaethu llwybrau. Gall ffactorau o'r fath gynnwys:-

1. Materion diogelwch uniongyrchol – e.e. llefydd croesi sy'n bodoli eisoes ond sy'n berygl neu wedi eu difrodi.
2. Budd/effaith mwyaf
  - a. canolbwyntio ar brif lwybrau i gerddwyr rhwng canolfannau poblogaeth a chyfleusterau lleol
  - b. pan fydd creu un groesfan yn cysylltu â llwybrau sy'n bodoli eisoes
  - c. lle gwyddys fod yna nifer fawr o ddefnyddwyr posib e.e. Canolfannau Iechyd, Gofal dydd/llely lloches, cartrefi gofal preswyl, meithrinfeydd, Gorsafoedd Bws, Cyfleusterau Hamdden, Gorsafoedd Rheilffordd

3. meysydd parcio – rhaid i bob maes parcio gynnig llefydd parcio i'r anabl ac mae llawer yn cynnig llefydd parcio i rieni a phlant. Nid yw llawer yn sicrhau fod mynediad tu allan i berimedr y maes parcio.
4. Parcio ar y stryd – mynediad o lefydd anabl ar, ac ar hyd, y briffordd yn agos i'w gilydd
5. Gwneud y mwyaf o unrhyw gyfle i ddatblygu llwybrau pan fydd gweithgaredd cynnal a chadw neu weithgaredd priffyrdd yn cymryd lle, yn cynnwys gwasanaethau eraill.
  - a. Proses ffurfiol i sicrhau bod yr holl gynlluniau priffyrdd yn ystyried ac yn cynnwys, lle bynnag fo hynny'n bosibl, ymyl palmentydd isel.
  - b. Trafodaethau rheolaidd â'r adran Gwasanaethau ynglŷn ag unrhyw gyfleoedd o fuddsoddiad posib yn y Cyngor i ychwanegu ymyl palmentydd isel
  - c. Gwneud y mwyaf o'r cyfleoedd a geir trwy'r broses gynllunio

Dylid adolygu'r cwynion a dderbyniwyd yn barod fel tystiolaeth ychwanegol ac yna delio â'r cwynion trwy'r broses hon neu trwy ddyraniad Gwasanaethau Cymdeithasol penodol.

Unwaith y penderfynir pa lwybrau strategol a gyfeirir atynt yna gallwn wella'r ymdriniaeth drwy weithredu'r canlynol:-

1. mapiau o lwybrau sy'n hygyrch i gadair olwyn/pram – er y nod yw cael gwared ar yr angen ond mi fydd hynny'n cymryd amser
2. Gwarchod ymyl palmentydd isel - peintio llinellau melyn neu wyn pan fo hynny'n bosib a gorfodi rhagweithiol
3. Canllawiau wedi eu diffinio'n glir ynglŷn â cheisiadau cynllunio ar gyfer datblygiadau newydd ochr yn ochr â llwybrau cyflawn gyda mynediad i gyfleusterau lleol.
4. Rhaglen o archwiliadau mynediad ar gyfer canol pob tref.
5. Trafodaeth barhaus â'r grŵp ffocws
6. Mae'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn ymdrin â'r materion sy'n disgyn tu allan i'r meini prawf uchod.

Mae cyfle wedi codi i ymgymryd â gwaith sy'n cysylltu'r Ganolfan Feddygol yn y Rhyl â Chanol y Dref. Mae'r tîm traffig yn ymgymryd â gwaith ar West Kinmel Street yn cynnwys 2 ymyl palmentydd isel. Bydd hynny'n cael ei gynyddu i 13 ymyl palmentydd isel a bydd yna gysylltiad rhyngddynt i ganol y dref. Mae hynny'n cydymffurfio â'r meini prawf a ddisgrifiwyd uchod ond yn bennaf yn cael ei wneud pan fydd cyfle i wneud hynny.

Bydd gwaith arall uniongyrchol yn cael ei wneud â'r grŵp ymgynghori ar ôl y cyfarfod.

## **5. Sut y mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Bydd y strategaeth a gytunwyd arni yn arwain at ddarparu rhagor o ymyl palmentydd isel ar draws y Sir mewn lleoliadau a fydd yn elwa fwyaf ohonynt. Mae hynny wedi cael ei ddatblygu fel gweithred gwella i gefnogi blaenoriaeth y Cyngor ar gyfer gwella'r ffyrdd. Bydd hefyd yn cefnogi'r flaenoriaeth i sicrhau fod pobl ddi-amddiffyn yn

cael eu diogelu ac yn gallu byw bywyd mor annibynnol â phosib ac efallai'n helpu i ddatblygu'r economi leol.

**6. Beth fydd y gost a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Bydd y gyllideb derfynol yn cael ei ddyrannu o ddyraniad presennol yr adran Priffyrdd. O fewn y gyllideb honno darperir elfen ar gyfer anghenion unwaith ac am byth sydd ddim yn cyd-fynd â'r meini prawf a gytunwyd arnynt ond sydd wedi eu pennu fel agweddau hanfodol. Gwasanaethau Cymdeithasol fydd yn blaenoriaethu'r prosiectau ad hoc hyn ond yr adran Priffyrdd fydd yn eu caffael er mwyn cael gafael ar raddau cystadleuol.

**7. Beth yw prif gasgliadau'r asesiad a gynhaliwyd ynglŷn ag effaith y penderfyniad ar gydraddoldeb? Dylid cynnwys templed yr Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb a gwblhawyd fel atodiad i'r adroddiad.**

Y bwriad yw cynnwys safbwyntiau gan gymaint o fudd-ddeiliaid ag sy'n bosib fel bod modd cyfeirio at anghenion pawb mewn modd sydd â ffocws iddo ac sy'n gynaliadwy.

**8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd â'r Pwyllgor Archwilio a phwyllgorau eraill?**

Ymgynghoriad â'r Gwasanaethau Cymdeithasol  
Ymgynghoriad â'r grŵp ffocws/defnyddiwr

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Dylid trosglwyddo'r Strategaeth o fewn y gyllideb bresennol a ddyrannwyd i'r gwasanaeth Priffyrdd a bydd yn ysgafnhau'r risgiau a nodir isod

**10. Pa risgiau sy'n bodoli ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Ar hyn o bryd mae yna risg ein bod yn gosod ymyl palmentydd isel mewn modd mympwyol sydd ddim yn cyfeirio at y gofynion go iawn, ac felly mae'n wastraff adnodd. Bydd y polisi hwn yn cael gwared ar y risg hynny ac yn cyflwyno ymdriniaeth â ffocws arno gydag adnoddau addas.

Er nad yw'r Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd, o ran priffyrdd, heb gael ei herio ryw lawer mae yna wastad risg, a gofynnir i'r sir ddangos ei ymrwymiad i gydymffurfio â'r Ddeddf yn y cyd-destun hwn ac felly bydd yr ymdriniaeth hon yn helpu i ddelio â gweithred bosib o'r fath.

**11. Grym i wneud Penderfyniad**

Deddf Priffyrdd 1980

Deddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 1995



Mae Erthygl 6.3.3 yn nodi'r rôl Archwilio o ran datblygu polisi

**Swyddog Cyswllt:**  
Rheolwr Asedau  
Ffôn: 01824 706875

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

**CYNLLUN GWEITHREDU I DDATBLYGU A GWEITHREDU  
STRATEGAETH YMYL PALMENTYDD ISEL**

Creu symudiad di-rwystr i bawb!

|     | GWEITHRED                                                                                                                | GAN BWY                                  | ERBYN PRYD             |
|-----|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|------------------------------------------|------------------------|
| 1.  | Sefydlu:<br>Cwrdd â Karen Beattie i drafod yr ymdriniaeth Cysylltu â Gwasanaethau Cymdeithasol                           | Mike Hitchings                           | Gorffennaf 2013        |
| 2.  | Datblygu drafft o'r meini prawf i sefydlu 'llwybrau strategol' yn ein cymunedau a wnaethpwyd cyn y cyfnod ymgynghori     | Mike Hitchings/Tim Towers/Erail          | Awst / Medi 2013       |
| 3.  | Adnabod y gyllideb ac elfen benodol ar gyfer blaenoriaethau Gwasanaethau Cymdeithasol tu allan i'r prosesau strategol.   | Mike Hitchings/Gwasanaethau Cymdeithasol | Hydref 2013            |
| 4.  | Cyflwyno i'r Grŵp Buddsoddi Strategol fel rhan o gynnyg cyfalaf Gwasanaethau Prifffyrdd ac Amgylcheddol yn ei gyfanrwydd | Mike Hitchings                           | Tachwedd 2013          |
| 5.  | Ymgynghori â'r grwpiau perthnasol, aelodau (MAGs?), Gwasanaethau Cymdeithasol                                            | Mike Hitchings/Tim Towers                | Tachwedd/Rhagfyr 2013. |
| 6.  | Cyflwyno meini prawf i bob cymuned a sefydlu llwybrau strategol                                                          | Tim Towers                               | Rhagfyr 2013           |
| 7.  | Adolygu'r cyfleusterau go iawn ar bob un o'r llwybrau hyn a phenderfynu os oes angen ymyl palmentydd isel                | Ian Hewitt                               | Rhagfyr 2013           |
| 8.  | Llunio meini prawf blaenoriaethu a'u defnyddio ar gyfer prosiectau posib                                                 | Tim Towers                               | Rhagfyr 2013           |
| 9.  | Datblygu rhaglen 3 blynedd a chyfathrebu â budd-ddeiliaid                                                                | Tim Towers                               | Rhagfyr 2013           |
| 10. | Gweithredu'r cynlluniau wedi eu blaenoriaethu ar gyfer 13/14 ar unwaith                                                  | Richard Jones                            | Mawrth 2014            |
| 11. | Gweithredu                                                                                                               | Richard Jones                            | O Ebrill 2014          |

|  |  |  |        |
|--|--|--|--------|
|  |  |  | ymlaen |
|--|--|--|--------|

|                                  |                                                                          |
|----------------------------------|--------------------------------------------------------------------------|
| <b>Adrodd i'r:</b>               | <b>Pwyllgor Archwilio Perfformiad</b>                                    |
| <b>Dyddiad y Cyfarfod:</b>       | <b>24 Hydref 2013</b>                                                    |
| <b>Aelod/ Swyddog Arweiniol:</b> | <b>Aelod Arweiniol Parth Cyhoeddus</b>                                   |
| <b>Awdur yr Adroddiad:</b>       | <b>Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd / Rheolwr Rheoli Datblygu</b> |
| <b>Teitl:</b>                    | <b>Ceisiadau Cynllunio</b>                                               |

---

## **1. Beth yw cynnwys yr adroddiad?**

Mae'r adroddiad yn ymwneud â pherfformiad y Cyngor yn nhermau faint o amser mae'n cymryd i benderfynu ar geisiadau cynllunio.

## **2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?**

Gofynnwyd am yr adroddiad hwn gan yr Aelodau er mwyn adnabod tueddiadau neu bwysau a all effeithio ar flaenoriaethau corfforaethol y Cyngor o ran sicrhau mynediad at dai o ansawdd a datblygu'r economi leol.

## **3. Beth yw'r Argymhellion?**

Mae'r adroddiad hwn er gwybodaeth a sylwadau Aelodau.

## **4. Manylion am yr Adroddiad.**

4.1 Gofynnwyd am yr adroddiad hwn yn dilyn cynnwys yr Adroddiad Perfformiad Blynyddol ar raglen y Pwyllgor Archwilio ar 19 Medi 2013.

4.2 Gofynnodd yr Aelodau am ffigurau er mwyn cymharu blynyddoedd ariannol 2011/12, 2012/13 a 2013/14 (hyd yma) gan eu bod yn teimlo bod arnynt angen eglurhad ynglŷn â pham nad yw Sir Ddinbych yn chwarter uchaf Cymru o ran yr amser mae'n cymryd i benderfynu ar geisiadau deiliaid tŷ o fewn 8 wythnos. Mae'r adroddiad hwn yn darparu gwybodaeth ddigonol i ganiatáu'r Aelodau i wneud sylwadau ar berfformiad y Cyngor o ran yr amser mae'n cymryd i ddelio gyda cheisiadau cynllunio o bob math.

4.3 Mae'r unig ystadegau yn yr Adroddiad Perfformiad Blynyddol sy'n gysylltiedig â'r mater hwn yn ymwneud â chanran y ceisiadau deiliaid tŷ sy'n cael eu penderfynu o fewn 8 wythnos. Er bod hyn yn rhoi syniad da ynglŷn â sut mae'r Awdurdod yn perfformio o'i gymharu ag Awdurdodau eraill yng Nghymru o ran math penodol o gais, mae'r Aelodau wedi gofyn am eglurhad pellach ynglŷn â pherfformiad y Cyngor yng nghyd-destun yr holl geisiadau cynllunio.

4.4 Mae Atodiad 1 yn cynnwys tablau sy'n cynnwys gwybodaeth ynglŷn â'r amser mae'n cymryd i benderfynu ar wahanol fathau o geisiadau cynllunio rhwng

2011/12 a chwarter cyntaf y flwyddyn hon (Ebrill - Mehefin). Mae Atodiad 1 hefyd yn cymharu ein perfformiad â pherfformiad Awdurdodau eraill yng Nghymru.

- 4.5 Felly mae Atodiad 1 yn darparu dadansoddiad cynhwysfawr o'r perfformiad yn nhermau'r amser mae'n cymryd i wneud penderfyniad ar gais cynllunio. Ar y cyfan ystyrir bod ein perfformiad yn dda. Fodd bynnag y prif faterion sy'n codi yn 2012/13 yw:

Rydym yn y 9<sup>fed</sup> safle yng Nghymru o ran % y ceisiadau sy'n cael eu cymeradwyo (dros y canolrif)

Rydym yn y 7<sup>fed</sup> safle yng Nghymru o ran yr amser y mae'n cymryd i benderfynu ar geisiadau 'mawr' (dros y canolrif)

Rydym yn yr 17eg safle yng Nghymru o ran yr amser y mae'n cymryd i benderfynu ar geisiadau 'bach' (dan y canolrif)

Rydym yn y 15fed safle yng Nghymru o ran yr amser y mae'n cymryd i benderfynu ar geisiadau 'deiliaid tŷ' (dan y canolrif)

Rydym yn y 9<sup>fed</sup> safle yng Nghymru o ran yr amser y mae'n cymryd i benderfynu ar geisiadau 'eraill' (dros y canolrif)

- 4.6 O ran meysydd ar gyfer eu gwella fe ddylem edrych ar yr amser mae'n cymryd i benderfynu ar geisiadau 'bach' a cheisiadau 'deiliaid tŷ'.

- 4.7 Ar gyfer y ddau uchod roedd ein perfformiad yn 2011/12 yn well na'n perfformiad yn 2012/13.

|             | <b>2011/12</b> | <b>2012/13</b> |
|-------------|----------------|----------------|
| Bach        | 70%            | 57%            |
| Deiliaid Tŷ | 90%            | 82%            |

Felly mae cryn le i wella eleni. Mae arwyddion cynnar yn dangos ein bod ar y trywydd cywir i wneud y gwelliannau hyn drwy gymharu perfformiad 2012/13 â pherfformiad chwarter cyntaf y flwyddyn hon.

|             | <b>2012/13</b> | <b>Chwarter Cyntaf Eleni</b> |
|-------------|----------------|------------------------------|
| Bach        | 57%            | 67%                          |
| Deiliaid Tŷ | 82%            | 86%                          |

- 4.8 Wrth gwrs, bydd ein perfformiad yn amrywio o flwyddyn i flwyddyn yn dibynnu ar newidynnau fel adnoddau staff, salwch, cymhlethdod ceisiadau ac ati a bydd ein safle yng Nghymru yn dibynnu ar berfformiad Awdurdodau eraill.

- 4.9 Yn y pen draw mae'r perfformiad o ran yr amser mae'n cymryd i benderfynu ar geisiadau yn seiliedig ar y pwyslais a'r pwysigrwydd y mae Awdurdod yn ei roi ar yr amser y dylid treulio ar geisiadau o'i gymharu ag ymgysylltu â'r gymuned ac ansawdd y penderfyniad a wneir. Mae Swyddogion yn credu ein bod ar y cyfan yn canfod y cydbwysedd cywir rhwng yr amser a dreulir ar geisiadau ac ymgysylltu ag Aelodau, bod yn agosach at y gymuned ac ansawdd y penderfyniad. Wedi dweud hynny mae'r rhai olaf o'r rhain yn anodd eu mesur ac yn oddrychol. Er bod amser yn haws ei fesur na'r materion goddrychol, mae Swyddogion yn credu bod cyfrifo amser yn ddull bras o feirniadu sut mae

cynllunio yn cyfrannu at y ddwy flaenoriaeth sy'n gysylltiedig â thair a'r economi.

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Mae'r Adain Gynllunio yn cyfrannu at gwrdd â blaenoriaethau'r Cyngor drwy sicrhau mynediad at dai o ansawdd a datblygu'r economi leol.

**6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Does dim goblygiadau o ran cost ynghlwm wrth yr adroddiad hwn ac ni fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill.

**7. Beth yw prif gasgliadau'r asesiad a gynhaliwyd ynglŷn ag effaith y penderfyniad ar gydraddoldeb? Dylid cynnwys templed yr Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb a gwblhawyd fel atodiad i'r adroddiad.**

Amherthnasol.

**8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd â'r Pwyllgor Archwilio a phwyllgorau eraill?**

Nid oes ymgynghoriad wedi ei gynnal er mwyn llunio'r adroddiad hwn.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Nid oes goblygiadau ariannol o ganlyniad i'r adroddiad hwn.

**10. Beth yw'r risgiau ac a allwn ni wneud rhywbeth i'w lleihau nhw?**

Nid yw'r lefel bresennol o berfformiad yn cyflwyno risg i'r Cyngor.

**11. Pŵer i wneud Penderfyniad**

Mae erthyglau 6.1 a 6.3.4(b) o Gyfansoddiad y Cyngor yn nodi swyddogaeth a phŵer y Cyngor o ran rheoli perfformiad a monitro gwasanaethau.

**Swyddog Cyswllt:**

Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd  
01824 706925

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag



## **Appendix 1 – Planning Applications**

### **2011/12**

|                                                                                                                                       | Local Target | Actual Achieved |
|---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|--------------|-----------------|
| Percentage of all applications determined within the statutory time scale                                                             | 75%          | 78%             |
| Percentage of major planning applications determined during the year within 13 weeks                                                  | 40%          | 45%             |
| Percentage of minor planning applications determined during the year within 8 weeks                                                   | 70%          | 70%             |
| Percentage of householder planning applications determined during the year within 8 weeks                                             | 90%          | 90%             |
| Percentage of all other planning applications determined during the year within 8 weeks (mineral, general regs, advert and all other) | 80%          | 82%             |

### **2012/13**

|                                                                                                                                       | Local Target | Actual Achieved |
|---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|--------------|-----------------|
| Percentage of all applications determined within the statutory time scale                                                             | 70%          | 71%             |
| Percentage of major planning applications determined during the year within 13 weeks                                                  | 40%          | 42%             |
| Percentage of minor planning applications determined during the year within 8 weeks                                                   | 60%          | 57%             |
| Percentage of householder planning applications determined during the year within 8 weeks                                             | 80%          | 82%             |
| Percentage of all other planning applications determined during the year within 8 weeks (mineral, general regs, advert and all other) | 70%          | 74%             |


### **Quarter 1 of 2013/14**

|                                                                                                                                       | Local Target | Actual Achieved |
|---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|--------------|-----------------|
| Percentage of all applications determined within the statutory time scale                                                             | 70%          | 74%             |
| Percentage of major planning applications determined during the year within 13 weeks                                                  | 40%          | 67%             |
| Percentage of minor planning applications determined during the year within 8 weeks                                                   | 60%          | 67%             |
| Percentage of householder planning applications determined during the year within 8 weeks                                             | 80%          | 86%             |
| Percentage of all other planning applications determined during the year within 8 weeks (mineral, general regs, advert and all other) | 70%          | 66%             |

## DEVELOPMENT CONTROL & COMPLIANCE


A number of national performance measures are collected to demonstrate performance and assist in comparison between local authority planning services. These include planning application approval rates but focus is overwhelmingly on the speed at which planning applications are processed. The Service has raised the point that there is great diversity in the type and complexity of planning applications received and that the broad categories utilised in the measures can be a blunt tool for analysis.

**Planning Applications Approved (%)**  
Financial Year 2012-13



Analysis of the longer-term trend shows increasing percentage of approvals, across Wales, particularly since 2008-09. In 2012-13, Denbighshire approved 92% of planning applications determined with a total of 623 applications. This performance places Denbighshire above the Median for Welsh local authorities or 9<sup>th</sup> of the 22 authorities. It was the third highest in North Wales and an increase of 1.8% from 2011-12. This indicates a fourth year of genuine progress, which could imply that negotiations are being carried out with developers in order to secure a more acceptable scheme, which can often take longer for a decision to be made, and therefore affect the speed of determination .

**Major Planning Applications determined within 13 weeks (%)  
Financial Year 2012-13**




Denbighshire determined 41% of major planning applications within 13 weeks in 2012-13 (i.e. 7 out of 17). This placed Denbighshire above the median in 7<sup>th</sup> out of 22 Authorities. A 'Major' Development is one where:

- The number of dwellings to be constructed is 10 or more, or the site area is 0.5 hectares or more; or
- Commercial or industrial floor space is 1,000 square metres or more, or the site area is 1 hectare or more

Denbighshire had the highest percentage figures compared to our neighbouring local authorities, Flintshire, Conwy, Wrexham, Gwynedd and Powys. Bridgend had the highest percentage overall with 68% and determined 17 out of 25 major planning applications within 13 weeks.

The 2012-13 figures represent a small fall in percentage terms. In 2011-12, the figure was 46% i.e. 5 out of 11 determined in 13 weeks.

**Minor Planning Applications determined within 8 weeks (%)  
Financial Year 2012-13**




In 2012-13, Denbighshire determined 56% of minor planning applications within 8 weeks (i.e. 180 out of 318). This placed Denbighshire in the lower quartile in 17<sup>th</sup> out of 22. A 'Minor' Development is one where the development:

- Does not meet the criteria for major development; or
- Is not of a type defined as householder development

The highest percentage in North Wales was 70% for Gwynedd with 317 applications being determined within 8 weeks out of a total of 452.

In 2011-12, Denbighshire had the highest percentage of minor planning applications determined within 8 weeks in North Wales with 70% (i.e. 243 out of 347)


**Householder Planning Applications determined within 8 weeks (%)**  
**Financial Year 2012-13**



In 2012-13, 82% of householder planning applications in Denbighshire were determined within 8 weeks (i.e. 239 out of 292), this placed Denbighshire below the median being 15 out of 22. A 'Householder' application included the development of an existing residential property and does not alter the number of dwellings. (They also exclude permitted developments).

This is a decrease of 8% for Denbighshire compared to the figure in 2011-12. The highest overall percentage was 98% for Neath Port Talbot. The highest percentage in North Wales was Conwy with 90%.

**All Other Planning Applications determined within 8 weeks  
(%)  
Financial Year 2012-13**



Denbighshire determined 76% of all other planning applications within 8 weeks in 2012-13 (i.e. 37 out of 49). This placed Denbighshire above the median in 9<sup>th</sup> out of 22.

‘All other’ planning applications include:

- Mineral applications
- General regulation applications
- Advertisement applications
- Any other applications not included in other categories

In comparison, Anglesey determined the highest percentage (87%) of all other planning applications within 8 weeks. In 2011-12, Denbighshire determined 82% of all other planning applications within 8 weeks which is a decrease of 6.1% in 2012-13.

## WORKLOADS AND EFFICIENCY

The table below shows a comparison of staff and workloads between Denbighshire and some of its neighbouring local authority’s planning functions, as at September 2013. The table shows that Denbighshire has the lowest number of staff dealing with planning applications and the highest caseload per officer.

|                                          | <b>Conwy</b>                                                  | <b>Denbighshire</b>                             | <b>Flintshire</b>                       |
|------------------------------------------|---------------------------------------------------------------|-------------------------------------------------|-----------------------------------------|
| No of officers dealing with applications | 5 No. full time<br>2 No. part time<br><b>7 in total (exc.</b> | 1 No. full time<br>Principal<br>1 No. part time | 4 No. Senior Planners<br>5 No. Planners |

|                          |                                           |                                                                                                              |                                                                |
|--------------------------|-------------------------------------------|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------|----------------------------------------------------------------|
|                          | <b>Manager)</b>                           | Principal<br>3 No. Planners<br>1 No. Temporary<br>Renewables Officer<br><b>6 in total (exc.<br/>Manager)</b> | 2 No. Team<br>Leaders<br><b>13 in total (exc.<br/>Manager)</b> |
| Caseloads per<br>officer | Major 20 - 30<br>Minor between<br>30 – 40 | Major 24<br>Minor 51                                                                                         | Major 30<br>Minor 40                                           |

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag



|                            |                                       |
|----------------------------|---------------------------------------|
| <b>Adroddiad i'r:</b>      | <b>Pwyllgor Archwilio Perfformiad</b> |
| <b>Dyddiad y Cyfarfod:</b> | <b>24 Hydref 2013</b>                 |
| <b>Awdur yr Adroddiad:</b> | <b>Y Cydlynnydd Archwilio</b>         |
| <b>Teitl:</b>              | <b>Rhaglen Waith Archwilio</b>        |

---

**1. Beth yw cynnwys yr adroddiad?**

Mae'r adroddiad yn cyflwyno drafft rhaglen waith i'r dyfodol y Pwyllgor Archwilio Perfformiad i'r aelodau ei hystyried.

**2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?**

Gofyn i'r Pwyllgor adolygu a chytuno ar ei raglen waith i'r dyfodol, a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i aelodau ar faterion perthnasol.

**3. Beth yw'r Argymhellion?**

Argymhellir y dylai'r Pwyllgor ystyried yr wybodaeth a ddarparwyd a chymeradwyo, adolygu neu addasu eu rhaglen gwaith i'r dyfodol fel yr ystyrir yn briodol.

**4. Manylion am yr Adroddiad.**

- 4.1 Mae Erthygl 6 Cyfansoddiad Cyngor Sir Ddinbych yn nodi cylch gorchwyl, swyddogaethau ac aelodaeth pob Pwyllgor Archwilio, tra bo rheolau'r gweithdrefnau i bwyllgor archwilio wedi'u gosod yn Rhan 4 y Cyfansoddiad.
- 4.2 Mae'r Cyfansoddiad yn amodi bod yn rhaid i bwyllgorau archwilio'r Cyngor baratoi ac adolygu rhaglen ar gyfer eu gwaith i'r dyfodol. Drwy adolygu a blaenoriaethu materion mae modd i aelodau sicrhau fod y rhaglen waith yn cyflwyno rhaglen dan arweiniad yr aelodau.
- 4.3 Arfer sydd wedi'i fabwysiadu yn Sir Ddinbych ers nifer o flynyddoedd yw bod pwyllgorau archwilio'n cyfyngu ar nifer yr adroddiadau a ystyrir mewn unrhyw gyfarfod i uchafswm o bedwar, yn ogystal ag adroddiad rhaglen waith y Pwyllgor ei hun. Nod y dull hwn yw hwyluso cael trafodaeth fanwl ac effeithiol ar bob pwnc.
- 4.4 Gofynnir i'r Pwyllgor ystyried ei raglen waith ddrafft ar gyfer cyfarfodydd y dyfodol, fel y manylir yn atodiad 1, a'i chymeradwyo, ei diwygio neu ei newid fel yr ystyrir yn briodol gan ystyried:
- materion a godwyd gan aelodau'r Pwyllgor
  - y materion a gyfeiriwyd ato gan y Grŵp Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion Archwilio

- Perthnasedd i flaenoriaethau'r Pwyllgor/y Cyngor/y Gymuned
  - Cynllun Corfforaethol y Cyngor ac Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol
  - bodloni'r llwyth gwaith
  - amseroldeb
  - canlyniadau
  - gwybodaeth a materion allweddol i'w cynnwys mewn adroddiadau
  - a fydd y swyddogion a/neu aelodau'r Cabinet perthnasol yn cael gwahoddiad (gan ystyried a yw eu presenoldeb yn angenrheidiol neu yn ychwanegu gwerth). (Ym mhob sefyllfa bydd y penderfyniad yn cael ei rannu gyda'r aelod arweiniol perthnasol)
  - cwestiynau i'w gofyn i swyddogion / aelodau arweiniol y Cabinet.
- 4.5 Wrth ystyried eitemau i'w cynnwys yn y rhaglen waith i'r dyfodol, efallai y byddai aelodau'n cael budd o ystyried y cwestiynau canlynol wrth benderfynu a yw eitem yn addas neu beidio:
- beth yw'r mater?
  - pwy yw'r budd-ddeiliaid?
  - beth sy'n cael ei ystyried mewn mannau eraill?
  - beth sydd angen i archwilio ei wybod? a
  - pwy sy'n gallu cynorthwyo?
- 4.6 Fel y crybwyllwyd ym mharagraff 4.2 uchod, mae Cyfansoddiad y Cyngor yn gofyn i bwyllgorau archwilio baratoi ac adolygu rhaglen ar gyfer eu gwaith i'r dyfodol. Er mwyn cynorthwyo'r broses o flaenoriaethu adroddiadau, os yw'r swyddogion o'r farn fod pwnc yn haeddu cael amser i'w drafod ar raglen fusnes y Pwyllgor, mae'n rhaid iddynt wneud cais ffurfiol i'r Pwyllgor ystyried derbyn adroddiad ar y pwnc hwnnw. Gwneir hyn trwy gyflwyno 'ffurflen gynnig' sy'n egluro pwrpas, pwysigrwydd a chanlyniadau posibl y pynciau a awgrymir. Does dim un ffurflen gynnig wedi dod i law i'w hystyried yn y cyfarfod cyfredol.

#### Rhaglen Waith i'r Dyfodol y Cabinet

- 4.7 Wrth benderfynu ar eu rhaglen waith i'r dyfodol mae'n bwysig fod pwyllgorau archwilio yn ystyried amserlen rhaglen waith y Cabinet. Ar gyfer y diben hwn, mae rhaglen waith y Cabinet wedi ei chynnwys yn Atodiad 2.

#### Datblygiad Penderfyniadau'r Pwyllgor

- 4.9 Yn Atodiad 3 mae tabl yn crynhoi penderfyniadau diweddar y Pwyllgor a gwybodaeth am y datblygiadau yn sgîl y penderfyniadau.

### **5. Grŵp Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion Archwilio**

Dan drefniadau archwilio'r Cyngor mae Grŵp Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion Archwilio (GCIGA) yn gweithredu fel pwyllgor cydlynu. Nid yw'r Grŵp wedi cyfarfod ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor ar 19 Medi. Bydd cyfarfod nesaf y Grŵp ar brynhawn 24 Hydref 2013.

**6. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Bydd archwilio effeithiol yn gymorth i'r Cyngor gynnal y blaenoriaethau corfforaethol yn unol ag anghenion cymunedau a dymuniadau trigolion. Bydd datblygu ac adolygu'r rhaglen waith gydlynol yn barhaus yn cynorthwyo'r Cyngor i fonitro ac adolygu materion polisi.

**7. Beth yw prif gasgliadau'r asesiad a gynhaliwyd ynglŷn ag effaith y penderfyniad ar gydraddoldeb? Dylid atodi'r templed AoEaG fel atodiad i'r adroddiad hwn.**

Ni chynhaliwyd Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb er diben yr adroddiad hwn gan nad yw ystyried rhaglen waith i'r dyfodol y Pwyllgor yn debygol o gael effaith andwyol neu annheg ar bobl sy'n rhannu nodweddion sydd wedi'u diogelu.

**8. Beth fydd y gost a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Mae'n bosib y bydd yn rhaid i wasanaethau neilltuo amser swyddog i gynorthwyo'r Pwyllgor gyda'r eitemau a nodwyd yn y rhaglen waith a chydag unrhyw gam gweithredu yn dilyn ystyried yr eitemau hynny.

**9. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd?**

Does dim angen cynnal ymgynghoriad ar yr adroddiad hwn. Fodd bynnag, mae'r adroddiad ei hun a'r ystyriaeth a roir gan y Pwyllgor i'w raglen waith ar gyfer y dyfodol yn gyfystyr ag ymgynghoriad gyda'r Pwyllgor o ran ei raglen waith.

**10. Pa risgiau sy'n bodoli ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Nid oes risg wedi ei ganfod o ran y Pwyllgor yn ystyried ei raglen waith. Fodd bynnag, wrth adolygu ei raglen waith yn rheolaidd gall y Pwyllgor sicrhau bod meysydd sy'n peri pryder yn cael eu hystyried a'u harchwilio fel y maent yn dod i'r amlwg a bod argymhellion yn cael eu gwneud er mwyn mynd i'r afael â nhw.

**11. Grym i wneud Penderfyniad**

Yn unol ag Erthygl 6.3.7 Cyfansoddiad y Cyngor mae'n rhaid i bwyllgorau archwilio'r Cyngor baratoi rhaglen waith a'i hadolygu.

**Swyddog Cyswllt:**

Y Cydlynnydd Archwilio

Rhif ffôn: (01824) 712554

E-bost: [dcc\\_admin@sirddinbych.gov.uk](mailto:dcc_admin@sirddinbych.gov.uk)

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

**Note: Any items entered in italics have not been approved for inclusion at the meeting shown by the Committee. Such reports are listed here for information, pending formal approval.**

| Meeting     | Lead Member(s)                                                                       | Item (description / title)                                        | Purpose of report                                                                                                                                                                                                                                   | Expected Outcomes                                                                                                                                                                                                                                     | Author                       | Date Entered   |
|-------------|--------------------------------------------------------------------------------------|-------------------------------------------------------------------|-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|------------------------------|----------------|
| 12 December | <b>Cllr. Barbara Smith</b><br><i>(not required but can attend at own discretion)</i> | 1. Corporate Plan QPR: Q2 2013/14 and the Corporate Risk Register | To monitor the Council's progress in delivering the Corporate Plan 2012-17 and the latest version of the Council's Corporate Risk Register following the latest formal review by CET                                                                | Ensuring that the Council meets its targets, delivers its Corporate Plan and the Council's services in line with its aspirations and to the satisfaction of local residents; and identification of effective measures to address the high level risks | Alan Smith/Nicola Kneale     | February 2013  |
|             | <b>Cllr. Hugh Irving</b><br><i>(required)</i>                                        | 2. Your Voice' complaints performance (Q2)                        | To scrutinise Services' performance in complying with the Council's complaints process                                                                                                                                                              | Identification of areas of poor performance with a view to the development of recommendations to address weaknesses.                                                                                                                                  | Jackie Walley/Clare O'Gorman | February 2013  |
|             | <b>Cllr. David Smith</b><br><i>(required)</i>                                        | 3. Grade II Listed Buildings                                      | To detail the number (and location) of all Grade II listed buildings in the County, listing those which are at risk of posing a problem to the Authority in the near future and the measures which are being taken to mitigate the risks identified | To mitigate the risks to the Council of it not being able to deliver its corporate priorities due to external factors relating to Grade II listed buildings which have the potential to damage the Authority's reputation                             | Graham Boase/Phil Ebbrell    | September 2013 |
|             | <b>No further items to be included for December meeting</b>                          |                                                                   |                                                                                                                                                                                                                                                     |                                                                                                                                                                                                                                                       |                              |                |

Tudalen 98

| Meeting         | Lead Member(s)             | Item (description / title)                                                      | Purpose of report                                                                                                                                                                                                                                                                                                                         | Expected Outcomes                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                      | Author                                    | Date Entered   |
|-----------------|----------------------------|---------------------------------------------------------------------------------|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-------------------------------------------|----------------|
| 16 January 2014 | <b>Cllr. Eryl Williams</b> | 1. Verified External Examinations and Teacher Assessments<br><b>[Education]</b> | To review the performance of schools, including PR6 and that of looked after children                                                                                                                                                                                                                                                     | Scrutiny of performance leading to recommendations for improvement                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                     | Julian Molloy                             | January 2013   |
|                 | <b>Cllr. Eryl Williams</b> | 2. Estyn Action Plan<br><b>[Education]</b>                                      | To<br>(i) monitor the progress achieved to date in implementing the actions to address the 2 recommendations in the 2012 Estyn Inspection of the Quality of Education Services; and<br>(ii) inform members of proposed changes to education delivery, performance/attainment measures and future inspection arrangements and expectations | (i) Better quality services and better outcomes for pupils through early identification of any slippages in progressing actions, or in implementing mitigating measures to address identified risks; and<br>(ii) identification of measures to address national policy requirements/challenges and consequential inspection arrangements with a view to mitigating the risk of disruption to pupils and teachers and deterioration in performance and attainment rates | Joint report by Karen Evans/Diane Hesketh | June 2013      |
